# Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

**2013 dccc 4**

## RHAN 3

TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL

## PENNOD 2

ADOLYGIADAU ARDAL

*Prif ardaloedd*

### 23 Adolygu ffiniau prif ardaloedd

(1) Caiff y Comisiwn, o'i wirfodd neu ar gais gan awdurdod lleol, gynnal adolygiad o un neu ragor o brif ardaloedd.

(2) Ond rhaid i'r Comisiwn beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (1) ar gais awdurdod lleol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.

(3) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw—

(a) y newidiadau hynny i ffin prif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol, a

(b) o ganlyniad i unrhyw newidiadau i ffin prif ardal, y newidiadau hynny i ffin cymuned, newidiadau i sir wedi ei chadw, newidiadau i gyngor cymuned neu drefniadau etholiadol y mae o'r farn eu bod yn briodol.

(4) At ddibenion y Rhan hon—

(a) mae cyfeiriad at "newid i ffin cymuned" yn gyfeiriad at—

(i) newid y ffin i gymuned;

(ii) dileu cymuned;

(iii) cyfansoddi cymuned newydd;

(b) mae cyfeiriad at "newid i gyngor cymuned" yn gyfeiriad at—

(i) cyfansoddi cyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cyffredin ar gyfer grŵp o gymunedau;

(ii) diddymu cyngor cymuned (un ar wahân neu un cyffredin);

(iii) gwahanu cymuned o grŵp o gymunedau sydd â chyngor cymuned cyffredin;

(iv) ychwanegu cymuned at grŵp o gymunedau sydd â chyngor cymuned cyffredin;

(c) mae cyfeiriad at "newid i drefniadau etholiadol" yn gyfeiriad at newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer unrhyw ardal llywodraeth leol;

(d) mae cyfeiriad at "newid i sir wedi ei chadw" yn gyfeiriad at newid i ardal sir wedi ei chadw;

(e) mae cyfeiriad at "newid i ffin prif ardal" yn gyfeiriad at—

(i) newid y ffin i brif ardal;

(ii) diddymu prif ardal;

(iii) cyfansoddi prif ardal newydd.

## 24 Adolygu prif ardaloedd yn dilyn gorchymyn tref newydd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn o dan adran 1 o Ddeddf Trefi Newydd 1981 (p. 64) (dynodi ardaloedd o dir ar gyfer trefi newydd) sy'n dynodi unrhyw ardal o dir yn safle i dref newydd, a

(b) pan na fo'r ardal a ddynodwyd felly ar gyfer y dref newydd yn cael ei chynnwys yn ei chyfanrwydd o fewn prif ardal.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru, cyn gynted ag y mae'n rhesymol ymarferol ar ôl dyddiad gweithredu'r gorchymyn, hysbysu'r Comisiwn gan bennu'r prif ardaloedd y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt.

(3) Rhaid i'r Comisiwn, pan ddaw hysbysiad i law o dan is-adran (2), gynnal adolygiad o dan adran 23 o unrhyw brif ardaloedd a bennir yn yr hysbysiad.